Eisteddfod

Garndolbenmaen a'r Cylch

A GYNHELIR YN

NEUADD Y PENTREF
DYDD SADWRN, IONAWR 27AIN 2024

Beirniaid:

Cerdd a Cherdd Dant - Iwan Wyn Williams, Llandwrog
Adrodd / Llefaru - Elin Williams, Cwmann
Llên a Barddoniaeth - Elin Williams, Cwmann
Arlunio - Eirian, Pwlldefaid
Cyfeilydd: Tudur P. Jones, Towyn (01654) 710314

Llywydd: John Eifion, Penisarwaun

Arweinyddion:

Mrs Nesta Jones, Bethan Dobson a Nia Mai Evans

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Drysau'n agored 12.30 - Dechreuir 1.00pm

CYFARFOD YR HWYR

Drysau'n agored 6.00 - Dechreuir 6.30p.m.

MYNEDIAD

Prynhawn - Oedolion a Phensiynwyr £4.00, Plant 50c
Hwyr - Oedolion a Phensiynwyr £4.00, Plant 50c

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

DARPERIR BWYD AM BRIS RHESYMOL

PROFLEN PROFLEN

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

Cadeirydd **- Mrs Gwen Owen, Cwm Pennant**
(01766) 530 295

Is-Gadeirydd **- Mrs Nerys Ll. Thomas, Wenallt**

Ysgrifenyddes **- Mrs Esyllt Williams,**
Garnant, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9TX
(01766) 530754

Is-Ysgrifenyddes **- Bethan Dobson**

Trysorydd **- Mr Richard Parry, Gwindy**
(01766) 530252

Is-Drysorydd **- Mrs Carolyn Jones, Cricieth**

Mae'n Eisteddfod hynod o hyd yn y gân,
Y gair a'r gelfyddyd;
Yma heno bob munud
Roedd y Garn yn gerdd i gyd.

Tudur Dylan

PROFLEN
PROFLEN

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Bydd £25 o wobr arbennig am yr adroddiad gorau yn y prynhawn er cof am Dora Jones

Bydd £25 o wobr yn rhoddedig gan O. Gerallt Jones ac Alun Llwyd am y datganiad gorau yn adran cerdd dant y prynhawn, er cof am eu rhieni

Bydd £25 o wobr arbennig yn rhoddedig gan Meibion Dwyfor am y datganiad gorau yn adran cerdd y prynhawn

CERDDORIAETH

1. MEITHRIN A DERBYN
AGORED
Gwobr: 1af Medal a £1.50, 2il £1.20, 3ydd £1

2. Blwyddyn 1-2
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £2.00, 2il £1.50, 3ydd £1.20

3. Blwyddyn 3-4
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £3.00, 2il £3.00, 3ydd £2.50
Er cof am Betty Wyn Williams

4. Blwyddyn 5-6
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £4.00, 2il £4.00, 3ydd £3.00
(Y Gwpan yn Gwpan goffa Ted Lloyd Jones, Tŷ Capel Isa gynt). I'w dal am flwyddyn

5. Blwyddyn 7-11
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £6.00, 2il £6.00, 3ydd £4.00

A fuasai cystadleuwyr mor garedig â chysylltu â'r cyfeilydd yn yr adrannau AGORED

6. Deuawd dan 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af £10.00, 2il £8.00, 3ydd £6.00
(Rhoddedig gan Mr a Mrs. O. J. Thomas, Argraig a Ffrind i'r Eisteddfod)

7. Cân Werin dan 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £5.00, 2il £5.00, 3ydd £4.00

8. Unawd Piano dan 12oed
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan Goffa Handel ac Elena Turner i'w dal am flwyddyn a £3.00, 2il £3.00, 3ydd £2.50

PROFLEN PROFLEN

9. Parti Unsain dan 12 oed
AGORED
Gwobr: 1af £10.00, 2il £7.00 Er cof am Kate Olwen Owens

10. Unawd Offeryn Cerdd dan 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £6.00, 2il £5.00, 3ydd £4.00
Yn rhoddedig gan Idwal a Moira Owens, Caernarfon er cof am Mrs Blodwen Owens

CERDD DANT

11. Unawd Dan 12 oed
AGORED
Gwobr: 1af Tlws Coffa i'w ddal am flwyddyn a £3.00, 2il £3.00, 3ydd £2.50
(Y Tlws yn rhoddedig er cof am Gwen Pritchard gan Brian, Iola, Maldwyn a Dylan)

12. Unawd 12 a than 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af Tlws a £6.00, 2il £6.00, 3ydd £5.00
(Y Tlws a'r Arian yn rhoddedig gan Ann er cof am Melfyn, Hendre Cennin)

13. Deuawd Dan 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af £10.00, 2il, £8.00, 3ydd, £6.00
(yn rhoddedig gan ffrind i'r Eisteddfod)

ADRODD / LLEFARU

14. MEITHRIN A DERBYN
AGORED
Gwobr: 1af Medal a £1.50, 2il £1.20, 3ydd £1.00

15. Blwyddyn 1-2
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £2.00, 2il £1.50, 3ydd £1.20

16. Blwyddyn 3-4
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £3.00, 2il £3.00, 3ydd £2.50

17. Blwyddyn 5-6
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £4.00, 2il £4.00, 3ydd £3.00

18. Blwyddyn 7-11
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £6.00, 2il £6.00, 3ydd £4.00
(Y Gwpan yn rhoddedig gan Mrs Margaret Jones er cof am ei phriod John Gareth Jones, Nantcyll Ganol)

19. Parti Llefaru
AGORED
Gwobr: 1af £10.00, 2il £7.00

PROFLEN PROFLEN

LLENYDDIAETH

20. Meithrin a Derbyn - Copi o'r isod mewn llawysgrifen:
Sali Mali
Gwobr: 1af £1.50, 2il £1.20, 3ydd, £1.00

21. Blwyddyn 1-2 Y Te Parti
Gwobr: 1af £2.00, 2il £1.50, 3ydd £1.20

22. Blwyddyn 3-4 Antur
Gwobr: 1af £2.50, 2il £2.00, 3ydd £1.50

23. Blwyddyn 5-6 Y Daith
Gwobr: 1af £3.00, 2il £2.50, 3ydd £2.00
Y cystadlaethau uchod i ysgolion y cylch

24. Blwyddyn 7-11 Oedran Uwchradd - Llythyr neu erthygl
I'w hanfon i'r ysgrifennydd erbyn 13eg Ionawr, 2024
Gwobr: £15.00, i'w rannu

(Y gwobrau yn yr adran uchod yn rhoddedig gan Mrs Megan Jones, Tyddyn Felin a Mr a Mrs R. Parry, Gwindy)

ARLUNIO

25. Meithrin a Derbyn
"Dyma Fi"
Gwobr: 1af £1.50, 2il £1.20, 3ydd £1.00

26. Blwyddyn 1-2
"Enfys"
Gwobr: 1af £2.00, 2il £1.50, 3ydd £1.20

27. Blwyddyn 3-4
"Chwaraeon"
Gwobr: 1af £2.50, 2il £2.00, 3ydd £1.50

28. Blwyddyn 5-6
"Cymru"
Gwobr: 1af £3.00, 2il £2.50, 3ydd £2.00

29. Blwyddyn 7-9
"Eisteddfod"
Gwobr: £10.00 i'w rannu

Trefn cystadlu - Rhifau 1, 14, 2, 15, 3, 16, 20, 21, 22, 25, 26, 27, 4, 17, 11, 5, 18, 28, 29, 6, 7, 23, 24, 8, 9, 10, 19, 12, 13

PROFLEN PROFLEN

CYFARFOD YR HWYR

CERDD

1. Unawd dan 25 oed
AGORED - Dim Sioe Gerdd
Gwobr: 1af Cwpan i'w dal am flwyddyn a £25.00, 2il, £15.00, 3ydd £10.00
(Cwpan Goffa Edwin Pritchard)

2. Unawd o Sioe Gerdd
AGORED
Gwobr: 1af £20.00, 2il, £15.00, 3ydd £10.00

3. Cân Werin dros 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £15.00, 2il £10.00, 3ydd £5.00
(Cwpan yn rhoddedig gan W. H. Evans, Melin Llecheiddior)

4. Unawd Gymraeg o waith Cyfansoddwr Cymreig
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £25.00, 2il £15.00, 3ydd £10.00, 4ydd £8.00
(Cwpan Goffa Marian Owens i'w dal am flwyddyn, yn rhoddedig gan Elen Blodwen a Nia a'r diweddar Thomas Aled Owens, ac £20 gan Rhian, er cof am Llysfoel Davies)

5. Her - Unawd
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £40.00, 2il £30.00, 3ydd £20.00, 4ydd £10.00
(Cwpan goffa Gwynedd Jones i'w dal am flwyddyn yn rhoddedig gan y diweddar Mrs B. Jones, Llwyn Mafon Isaf, Criccieth, a'r wobr ariannol gan Bryn Terfel)
BYDD HAWL GAN Y BEIRNIAD I ATAL RHAN O'R WOBR OS NA FYDD YNA 5 YN CYSTADLU

6. Canu Emyn dros 50 oed
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £25.00, 2il £15.00, 3ydd £10.00, 4ydd £5.00

7. Côr Meibion, Merched neu Gymysg
AGORED
Gwobr: 1af Tarian a £150.00, 2il £100.00

8. Deuawd dros 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af £20.00, 2il £10

PROFLEN PROFLEN

CERDD DANT

9. Unawd dros 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £15.00, 2il £10.00, 3ydd £5.00
(Cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs J. H. Jones, Nantcyll Uchaf)

10. Deuawd neu Driawd dros 16 oed
AGORED
Gwobr: 1af £20.00, 2il £10.00

11. Côr neu Barti
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan i'w dal am flwyddyn a £75.00, 2il £50.00, 3ydd £25.00
(Cwpan goffa J. Pierce Jones)

ADRODD / LLEFARU

12. Perfformio Darn Digrif
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £30.00. (Yr arian i'w rannu ar farn y beirniad)

13. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: "Mewn Cymeriad"
Oed - 16-25.
Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud, wedi ei seilio ar ddewis o 2 sgript - Owain Glyndŵr neu Cranogwen. Dylai'r pwyslais fod ar greu perfformiad ysgafn, fydd yn profi gallu'r unigolyn i ryngweithio'n hwylus gyda'r gynulleidfa a chyfleu'r stori'n glir. Caniateir gwisgoedd a props. Bydd yr enillydd cenedlaethol yn derbyn gwahoddiad i ymuno â Chwmni Mewn Cymeriad maes o law ar gyfer gweithdy ymarferol i ddatblygu sgiliau ymhellach. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Medi 2023 a diwedd Mai 2024 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Tâf 2024 am wobrau o £100, £60 a £40. Sgriptiau ar gael o Wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Gwobr: 1af Tarian a £20.00, 2il £20.00, 3ydd £15.00

14. Prif Adroddiad
AGORED
Gwobr: 1af Cwpan a £30.00, 2il £20.00, 3ydd £15.00
(Cwpan goffa teulu Trigfa, y Garn)

15. Cyd-Adrodd
AGORED
Gwobr: 1af £75.00, 2il £50.00, 3ydd £25.00

PROFLEN PROFLEN

BARDDONIAETH A LLENYDDIAETH

16. Englyn "Cychod"
Gwobr: £10.00
(Y wobr yn rhoddedig er cof am Gwynfor gan Anwen Humphreys)

17. Telyneg "Coed"
Gwobr: £10.00
(Y wobr yn rhoddedig gan Mr a Mrs J. Ll. Williams, Ysgubor Goch)

18. Limrig:
Limrig yn cynnwys y llinell: "Mae rhywbeth 'di newid, medd Ifan"
Gwobr: £5.00 (Yn rhoddedig er cof am Gwynfor gan Mrs Anwen Humphreys)

19. Dan 25 oed "Tlws yr Ifanc" Dewis o'r canlynol:-
Stori Fer, Portread neu Ymson
Gwobr: Tlws yr Eisteddfod a Thocyn Llyfr (yn rhoddedig gan Mrs. G. Griffiths, Ynys Wen, a Chwmni Peirianneg Sifil Gelli er cof am Tom Richards, Wern, Llanfrothen)

Trefn cystadlu - Rhifau 1, 13, 9, 19, 2, 12, 3, 10, 16, 17, 4, 5, 6, 18, 8, 14

RHIFAU 7, 11 A 15 I GAEL CYSTADLU RHWNG 8.30 A 10.00 y.h.

PROFLEN
PROFLEN

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i holl noddwyr yr Eisteddfod — y cwpanau, y gwobrau, cyfraniadau a chefnogaeth

Derbyniwyd yn ddiolchgar yn ogystal y rhoddion ariannol hyn tuag at Eisteddfod 2023:

Cyngor Sir Gwynedd Cronfa Degwm	£300.00
Cronfa Pantyfedwen	£245.00
Cyngor Cymuned Dolbenmaen	£300.00
Carol Ann Williams	£100.00
Ffrind i'r Eisteddfod	£40.00
Er cof am Tegid Roberts	£20.00
Er cof am Myfi Jones	£20.00
John a Catherine Williams, Ysgubor Goch	£20.00
K. R. Williams, Cae'r Ffynnon	£20.00
K. Owen, Drws Deugoed	£5.00
Er cof am Aurwen Jones ac Aled Roberts, Bryncir	£25.00
Di enw	£20.00

PROFLEN

AMODAU

1. Yr oll o'r cystadlu yn agored.

2. Yr Arlunio a'r Llenyddiaeth i fod yn nwylo'r ysgrifennydd, ac nid i'r beirniad erbyn 13eg Ionawr, 2024. Rhodder ffug-enw yn unig wrth y gwaith, gan amgau enw a chyfeiriad ar wahân.

3. Dychwelir y cyfansoddiadau ar dderbyniad cais ysgrifenedig, ynghyd â thâl cludiant.

4. Bydd hawl gan y beirniad i ad-drefnu neu atal gwobr oddigerth y rhoddion.

5. Y cystadleuwr i fod yn yr oedran priodol ddydd yr Eisteddfod.

6. Y cystadleuwr i ofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd Swyddogol.

7. Rhaid i bob cystadleuydd dderbyn gwasanaeth y Cyfeilydd Swyddogol oddigerth y partion cerdd dant.

8. Caniateir i blant dan 16 oed newid cyweirnod ar gyfer eu llais.

9. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o'r cynhyrchion.

10. Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain na cholled a all ddigwydd ynglŷn â'r Eisteddfod.

PROFLEN
PROFLEN

PROFLEN
PROFLEN

Canolfan Arwerthiant Bryncir

Ffôn: 01766 530 828 / 01766 530 829
lwhbryncir@btconnect.com
www.lwhbryncir.co.uk

LWH Bryncir

ARWERTHWYR · PRISWYR

ASIANT TIR A STADAU

SÊL BOB DYDD LLUN
AR WARTHEG STOR,
BUCHOD MAGU A DEFAID

ANIFEILIAID TEW BOB
DYDD MERCHER AM 11.00am

GWERTHU A PRISIO EIDDO A FFERMYDD

ARWERTHIANAU 'MADAEL FFERMYDD

Pob Llwyddiant i'r Eisteddfod

E.mail: lwhbryncir@btconnect.com

PROFILE

Argraffwyd gan Wasg Cymru, Unedau 6 a 7, Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth Ffôn 01766 770 001